



Papur Gwybodaeth Manwl

Cyllideb Haf 2015

Ar 8 Gorffennaf 2015, cyflwynodd y Canghellor gyllideb gyntaf y Llywodraeth Geidwadol newydd. Mae'r Gyllideb hon yn cyflwyno tua £17 biliwn o fesurau fydd yn gostwng y diffyg, yn cynnwys £12 biliwn erbyn 2019-20 o ddiwygio lles a £5 biliwn erbyn 2019-20 o fynd i'r afael ag osgoi treth a chynllunio treth, efnadu a chydymffurfiaeth, ac anghydbwysedd yn y system drethiant. Yn yr hydref, bydd y Llywodraeth yn gosod cynlluniau i gyflawni'r £20 biliwn gweddillol o fesurau i ostwng y diffyg.

Fel rhan o ymrwymiad Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru i'n haelodau, rydym wedi gweithio gyda thîm Mae Budd-daliadau yn Newid i gasglu'r data sylweddol o gyhoeddiad cyllideb Llywodraeth y Deyrnas Unedig, ystadegau allweddol a'n rhagolygon am yr effaith bosibl ar sector tai Cymru yn y papur gwybodaeth yma.

Dangosir y mesurau a gyhoeddwyd yn y gyllideb sydd yn uniongyrchol berthnasol i gymdeithasau tai yn y siart ar dudalen 2 a rhoddir eu manylion yn y papur gwybodaeth yma.




Polisiau fydd yn effeithio ar Gymdeithasau Tai yn uniongyrchol o 2015-21

Budd-dal Tai


- Diweddau hawl awtomatig ar gyfer pobl ifanc 18-21 oed o Ebrill 2017
£135m
 - Gostwng rhenti sector cymdeithasol gan 1% y flwyddyn am 4 blynedd o 2016-17
£4.28bn
 - Cyfyngu dyfarniadau ôl-ddyddio i 4 wythnos o Ebrill 2016
£10m
- Cyfanswm: £4.425bn**

Arall

- Alinio cyfradd grŵp gweithgaredd cysylltiedig â gwaith gyda JSA ar gyfer hawliadau newydd
£1.365bn
 - Twyll, camgymeriad a dyled: newidiadau credydau treth
£145m
- Cyfanswm: £1.510bn**



(£ arbediad i Lywodraeth y Deyrnas Unedig)



(Gostyngiad diffyg yn ôl blwyddyn)

Llesiant

- Rhewi budd-daliadau oedran gwaith, credydau treth a lwfansau tai lleol o 2016-17
£11.25bn
 - Cap budd-daliadau: gostwng i £20,000 a £23,000 yn Llundain o 2016-17
£1.67bn
- Cyfanswm: £12.92bn**

Credydau Treth a Credyd Cynhwysol

- Cyfyngu elfen plant i 2 blentyn ar gyfer genedigaethau newydd mewn credydau treth a hawliadau newydd mewn Credyd Cynhwysol o 2017-18
£3.435bn
 - Dileu elfen teulu mewn credydau treth a Credyd Cynhwysol, a'r premiwm teulu mewn Budd-dal Tai o 2016-17
£1.915bn
 - Cynyddu cyfradd tapr credydau treth i 48% o 2016-17
£3.7bn
 - Gostwng trothwyon incwm mewn credydau treth a lwfansau gwaith mewn Credyd Cynhwysol o 2016-17
£15.87bn
 - Gostwng anwybyddiad cynnydd incwm mewn credydau treth o 2016-17
£935m
- Dyddiau aros am Credyd Cynhwysol: 7 diwrnod aros o Awst 2015
£-5m

Cyfanswm: £25.355bn




Yn ogystal â'r polisiau a gynhwysir yn y Siart yma:

- Cyhoeddwyd £800 miliwn mewn cyllid Taliad Tai ar Ddisgresiwn dros y 5 mlynedd nesaf.
- Bydd y Llywodraeth yn cynyddu cymorth treth 'Rhentu Ystafell' o £4,250 i £7,500 y flwyddyn o Ebrill 2016.
- Cyflwynir 'Cyflog Byw Cenedlaethol', yn dechrau ar £7.20 yn Ebrill 2016 a disgwylir iddo godi i dros £9.00 erbyn 2020.

Gall nifer o fesurau eraill, lle datganolwyd pwerau i Gymru, fod â chanlyniadau anuniongyrchol i aelodau CHC:

- Bydd y Llywodraeth yn gostwng y rhenti a delir gan denantiaid tai cymdeithasol yn Lloegr gan 1% y flwyddyn am 4 blynedd o 2016.
- Talu i Aros - Bydd y Llywodraeth yn ei gwneud yn ofynnol i denantiaid cymdeithasol incwm uchel dalu rhent marchnad neu agos at rent marchnad.
- Tenantiaethau oes - Bydd y Llywodraeth yn adolygu'r defnydd o denantiaethau oes mewn tai cymdeithasol i gyfyngu eu defnydd a sicrhau fod aelwydydd yn cael cynnig tenantiaethau sy'n diwallu eu hanghenion ac yn gwneud y defnydd gorau o'r stoc tai cymdeithasol.
- Lefi prentisiaethau - Bydd y Llywodraeth yn cyflwyno lefi ar gyflogwyr mawr y Deyrnas Unedig i gynyddu nifer prentisiaethau newydd.
- Cadarnhau ymestyn Hawl i Brynu i gymdeithasau tai yn Lloegr.
- Gofal Plant: hawl i 30 awr ar gyfer rhieni sy'n gweithio plant 3 a 4 oed ac amodau ar y Credyd Cynhwysol i rieni o pan fydd y plentyn ifanc yn troi'n 3.
- Cefnogaeth ar gyfer llog morgesiau: newid o daliad budd-dal i fenthyciad.
- Datganoli mwy o bwerau i Gymru.

Mae diwygio lles eisoes yn taro'n waeth ar Gymru na mannau eraill ac mae'r mesurau cyfunol hyn yn gwaethygu'r effaith hwnnw. Er enghraifft, mae mwy o gyfran o denantiaid tai cymdeithasol yn hawlio budd-dal tai yng Nghymru nac yn Lloegr na'r Alban.



Members of the Community Housing Cymru Group:
Aelodau Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru:




Mesurau'n effeithio'n uniongyrchol ar gymdeithasau tai Cymru

1. Gostwng cap budd-daliadau aelwydydd, i'w gyflwyno mewn camau yn ystod 2016/17

Ar hyn o bryd yr uchafswm ar fudd-daliadau'n cyfyngu'r cyfanswm y gall aelwyd ei dderbyn mewn budd-daliadau yw £26,000 y flwyddyn ar gyfer cyplau ac aelwydydd gyda phlant a £18,200 y flwyddyn i aelwydydd gydag un aelod. Bydd y mesur newydd hwn yn cyfyngu uchafswm budd-daliadau aelwyd i £20,000 y flwyddyn ar gyfer cyplau ac aelwydydd gyda phlant ac i £13,400 y flwyddyn ar gyfer aelwydydd un aelod, heblaw ar gyfer Llundain lle bydd yr uchafswm yn £23,000 y flwyddyn ar gyfer cyplau ac aelwydydd gyda phlant a £15,410 y flwyddyn ar gyfer aelwydydd un aelod. Dim ond ar aelwydydd allan o waith y bydd hyn yn gymwys.

Effaith:

Ar hyn o bryd, mae'r cap o £26,000 yn effeithio ar 706 teulu yng Nghymru (236 ohonynt yn denantiaid). Dengys dadansoddiad ystadegol tîm Mae Budd-daliadau yn Newid y bydd y cap is o £20,000 yn effeithio ar tua 7,000 o deuluoedd yng Nghymru, 2,240 ohonynt yn denantiaid. Amcangyfrifwn y gallai uchafswm o £20,000 olygu y byddai teulu allan-o-waith o 2 oedolion a 3 plentyn yn colli £3,200 y flwyddyn ar gyfartaledd.



2. Rhewi budd-daliadau oedran gwaith am 4 blynedd

Mae'r polisi yma'n rhewi gwerth ariannol y rhan fwyaf o fudd-daliadau oedran gwaith am bedair blynedd o 2016-20. Yr elfennau o fudd-daliadau oedran gwaith a gynhwysir yn Neddf Uwchraddio Budd-daliadau Lles 2013 yw Lwfans Ceisio Gwaith, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, Cymhorthdal Incwm, Budd-dal Plant, symiau perthnasol ar gyfer Budd-dal Tai, Credyd Treth Plant a Chredyd Treth Gwaith, a chyfraddau cyffelyb mewn Credyd Cynhwysol. Cyfraddau Lwfans Tai Lleol (LHA) sy'n penderfynu uchafswm y Budd-dal Tai a delir i'r rhan fwyaf o hawlwr yn y sector rhent preifat. Caiff budd-daliadau penodol i bensiynwyr, budd-daliadau'n



ymwneud â chostau ychwanegol anabledd neu ofal, a budd-daliadau statudol a lwfans mamolaeth eu heithrio o'r rhewi.

Effaith:

Effaith y newidiadau hyn fydd cynnydd mewn problemau fforddiadwyedd ar gyfer darpar denantiaid sy'n dibynnu ar fudd-daliadau os yw rhenti'n parhau i dyfu, fel y rhagwelir, dros y 4 blynedd nesaf. Yng Nghymru yn unig, mae 89,400 o deuluoedd gwaith yn derbyn Credydau Treth Gwaith a hefyd Gredydau Treth Plant, a 44,000 o deuluoedd mewn gwaith yn derbyn Credyd Treth Plant yn unig. Mae 73,800 o deuluoedd allan-o-waith yn hawlio Credyd Treth Plant.¹

Er bod chwyddiant ar hyn o bryd yn is nag y bu erioed, os yw'r gyfradd yn dychwelyd i darged y llywodraeth o 2% yn seiliedig ar y Fynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI), byddai effaith y rhewi yn llawer mwy wrth i gost byw gynyddu. Gall cyflwyno isafswm cyflog 'byw' gynyddu chwyddiant wrth i brisiau godi i gyfateb â chostau uwch cyflogi pobl.

3. Dyddiau aros am y Credyd Cynhwysol - diwygio amserlen cyflwyno

Fel y cyhoeddwyd yn flaenorol, bydd y mesur hwn yn newid y dyddiad gweithredu ar gyfer cyflwyno saith diwrnod aros am y Credyd Cynhwysol o 1 Ionawr 2015 i 3 Awst 2015. Bydd eithriadau ar gyfer grwpiau agored i niwed.

Effaith:

Bydd angen i'r rhai sy'n hawlio Credyd Cynhwysol aros o leiaf chwe wythnos cyn y gwneir taliad - cyfnod aros saith diwrnod, cyfnod asesu un mis a thaliad un wythnos ar ôl hynny. Ni fydd angen i'r rhai sy'n symud o fudd-dal gwaddol aros ond mae Credyd Cynhwysol yn cynnwys costau tai a bydd y cyfnod aros 7 diwrnod yn gadael tenantiaid heb unrhyw gefnogaeth ariannol yn ystod y cyfnod hwnnw i dalu rhent.

4. Cyhoeddi cyllideb Taliadau Tai ar Ddisgresiwn (DHP) am y 5 mlynedd nesaf

Mae'r gyllideb newydd yn cynnwys cyhoeddiad ar gyllideb y DHP, a osodwyd ar £800 miliwn am y 5 mlynedd nesaf.

Effaith:

Yn flaenorol rydym wedi gweld cyllideb DHP yn gostwng o £165 miliwn i £125 miliwn yn 2015/16. Mae'r cyhoeddiad hwn yn awgrymu cynnydd tebygol o £160 miliwn y flwyddyn, ar gyfartaledd dros y pum mlynedd nesaf, hyd at 2021.

¹ <https://sw.stat-xplore.dwp.gov.uk>



5. Cyfyngu ôl-ddyddio Budd-dal Tai

O Ebrill 2016 caiff hawliadau Budd-dal Tai eu hôl-ddyddio am uchafswm o 4 wythnos.

Effaith:

Bydd hyn yn alinio budd-dal tai gyda'r Credyd Cynhwysol a bydd yn effeithio ar lawer o denantiaid nad ydynt yn hysbysu'r awdurdod lleol neu landlord am unrhyw newid yn eu hamgylchiadau. Mae'r polisi presennol yn caniatáu ôl-ddyddio i 13 wythnos.

6. Cyfyngu Credyd Treth Plant (Credyd Cynhwysol) i ddau blentyn o Ebrill 2017 ar gyfer unrhyw hawlwr newydd a hawlwr presennol sy'n cael mwy o blant ar ôl 2017.

Mae'r mesur hwn yn cyfyngu elfen plant y Credyd Treth Plant a'r Credyd Cynhwysol i ddau blentyn ar gyfer plant a gaiff eu geni ar neu ar ôl 6 Ebrill 2017. Mae hefyd yn cyfyngu elfen plant Credyd Cynhwysol i'r ddau blentyn cyntaf ar gyfer hawliadau newydd ar ôl y dyddiad hwn. Yn Credyd Cynhwysol, caiff y rhai na dderbyniodd gredydau treth neu Gredyd Cynhwysol gydag ymyriad o lai na 6 mis eu diogelu. Ni fydd y mesur hwn yn effeithio ar yr elfen plentyn anabl a'r elfen plentyn gydag anabledd difrifol. I sicrhau cydlyniaeth, caiff y lwfansau cyfatebol mewn Budd-dal Tai ar gyfer pob plentyn dibynnol hefyd eu cyfyngu i 2 o blant ar gyfer genedigaeithau newydd a hawliadau newydd o Ebrill 2017. Daw'r mesur hwn i rym yn Ebrill 2017.

Effaith:

Mae'n anodd amcangyfrif y nifer o denantiaid cyfredol a darpar denantiaid sy'n cyrchu credyd treth, ond bydd teuluoedd mewn gwaith incwm isel yn gweld gostyngiad sylweddol yn yr incwm sydd ar gael drwy'r cynllun. Ar hyn o bryd dealltwriaeth tîm Mae Budd-daliadau yn Newid yw y bydd 43,000 o hawlwr credyd treth sydd â 3 neu fwy o blant yn derbyn diogeliad pontio pan symudant i Gredyd Cynhwysol, ond y gallai newid mewn amgylchiadau arwain at golli'r diogeliad hwnnw.

7. Dileu'r elfen teulu mewn credydau treth a Chredyd Cynhwysol, a'r premiwm teulu mewn Budd-dal Tai, ar gyfer hawliadau newydd ar ôl Ebrill 2016

Mae'r mesur hwn yn dileu elfen teulu'r Credyd Treth Plant a'r Credyd Cynhwysol cyfatebol, sy'n werth £545 y flwyddyn ar hyn o bryd, ar gyfer plant cyntaf a gaiff eu geni ar neu ar ôl 6 Ebrill 2017. Mae hefyd yn dileu'r premiwm teulu mewn Budd-dal Tai, sy'n lwfans incwm gwerth £17.45 yr wythnos ar gyfer teuluoedd gyda phlant. Mewn Budd-dal Tai bydd hyn yn weithredol i hawliadau newydd am y budd-dal neu i blant a gaiff eu geni ar neu ar ôl Ebrill 2016. Gyda Chredyd Treth Plant bydd hyn yn weithredol ar gyfer plant a anwyd ar neu ar ôl 6 Ebrill 2017, ac mewn Credyd Cynhwysol bydd hyn yn weithredol i hawliadau newydd am y budd-dal ar neu ar ôl 6 Ebrill 2017. Mewn Credyd Cynhwysol, diogelir rhai a dderbyniodd gredydau treth neu Gredyd Cynhwysol gydag ymyriad o lai na 6 mis.



Effaith:

Ar hyn o bryd mae 208,000 o deuluoedd yng Nghymru yn derbyn y £545 y flwyddyn. Mae'n anodd rhagweld yr effaith ar enedigaethau newydd ond mae'r Llywodraeth yn sôn yr arbedir £55m yn y Deyrnas Unedig yn 2016/17. Gall y gostyngiad yn y premiwm teulu mewn Budd-dal Tai ostwng hawl rhai teuluoedd incwm isel i fudd-dal tai rhannol neu lawn.

8. Ni fydd gan bobl ifanc 18-21 oed hawl awtomatig i fudd-dal tai gydag oblygiad newydd "ennill i ddysgu"

Mae'r mesur hwn yn dileu hawl awtomatig i elfen tai Credyd Cynhwysol ar gyfer pobl ifanc 18-21 oed sydd allan o waith. Bydd eithriadau ar gyfer rhieni, rhai grwpiau agored i niwed a'r rhai sydd wedi cael gwaith yn ddiweddar.

Effaith:

Caiff hyn effaith sylweddol yng Nghymru lle mae 6,555 o bobl ifanc 18 i 21 oed (gyda 2,390 ohonynt yn denantiaid) sy'n hawlio budd-dal tai ar hyn o bryd. Disgwylid rhifau tebyg mewn hawliadau Credyd Cynhwysol yn y dyfodol. Nid oes manylion hyd yma ar sut y bydd y 338 o bobl ifanc 16 a 17 sy'n hawlio budd-dal tai ar hyn o bryd yn cael costau tai pan gyrhaeddant 18 ac yn symud i'r Credyd Cynhwysol.

Mae'r polisi hwn yn tanseilio hyfywedd y modelau presennol a ddefnyddir gan gymdeithasau tai i letya pobl ifanc dan 21 yn annibynnol. Gall hyn osod llawer o bobl ifanc mewn risg os mai'r rheswm am adael oedd osgoi gwrthdaro. Gall hefyd olygu anawsterau a symudodd i gartref llai oherwydd y 'dreth ystafelloedd gwely' yn awr ofyn am symud i gartrefi mwy, derbyn y ffi ychwanegol y bydd hyn yn ei olygu a symud gyda'u plant.



Pobl Ifanc 16-21 oed yng Nghymru sy'n hawlio budd-dal tai ar hyn o bryd:²

Ffigurau DWP		(Chwefror 15)				
		ALI	LCC	(Lwfans Tai Lleol) (PRS)	(dim Lwfans Tai Lleol) (PRS)	Cyfanswm
	Oedran					
	16	14	53	5	5	77
	17	45	151	55	10	261
	18	132	398	300	36	866
	19	232	506	548	42	1328
	20	318	677	857	56	1908
	21	435	809	1162	47	2453
	Cyfan	1176	2594	2927	196	6893

9. Cynyddu'r tapr credyd treth i 48% a gostwng trothwyon incwm mewn credyd treth a lwfansau gwaith mewn Credyd Cynhwysol

Mae'r mesur hwn yn cynyddu'r tapr credydau treth o 41% i 48% o incwm gros a daw i rym yn Ebrill 2016. Bydd y gostwng mewn trothwyon incwm yn gostwng y lwfans gwaith mewn Credyd Cynhwysol ar gyfer aelwydydd heb fod yn anabl heb blant i sero, ac yn symleiddio pob lwfans gwaith arall i gyfradd o £192 y mis ar gyfer aelwydydd gyda chostau tai a £397 y mis ar gyfer aelwydydd heb gostau tai. Gweithredir y mesurau ar gyfer pawb sy'n hawlio Credyd Cynhwysol o Ebrill 2016. Bydd y mesur hefyd yn gostwng y trothwy incwm mewn Credydau Treth i £3850 y flwyddyn o Ebrill 2016.

Effaith:

Bydd y mesurau hyn ar eu pen eu hunain yn arbed £4.2 biliwn i'r Trysorlys yn 2016/17 a £15.2 biliwn pellach dros y pedair blynedd ddilynol. Caiff y mesurau hyn effaith enfawr ar deuluoedd incwm isel ac mae'n gofyn cwestiynau am allu'r Credyd Cynhwysol i 'wneud i waith dalu' mewn gwirionedd.

10. Alinio Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA) a'r Lwfans Ceisio Gwaith (JSA)

Bydd y mesur hwn yn dileu'r taliadau ychwanegol sy'n gysylltiedig gydag elfen gweithgaredd gwaith-gysylltiedig y Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ac elfen gallu cyfyngedig am waith y Credyd Cynhwysol ar gyfer hawllyr budd-dal newydd o Ebrill 2017. Bydd hawllyr newydd ESA a gaiff eu gosod yn y grŵp gweithgaredd cysylltiedig â gwaith (h.y. hawllyr y mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn ystyried y byddant yn gallu gweithio

² Ystadegau yr Adran Gwaith a Phensiynau Chwefror 2015



rywbryd yn y dyfodol ac a all gymryd camau tuag at symud i waith ar unwaith) yn derbyn yr un gyfradd â'r rhai sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith (£73.10 yr wythnos, gostyngiad o £29.05 yr wythnos), ynghyd â 'chefnogaeth ychwanegol i'w helpu i gymryd camau yn ôl i waith'.

Effaith:

Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn amcangyfrif y bydd economi'r Deyrnas Unedig yn colli £640m oherwydd y gostyngiad hwn, gan effeithio ar bobl wael ac anabl.

11. Cyflwyno 'cyflog byw cenedlaethol', yn dechrau ar £7.20 yn Ebrill 2016 ac a ddisgwylir iddo gynyddu i £9.00 erbyn 2020

Mae'r polisi yma'n gosod Cyflog Byw Cenedlaethol ar gyfer pobl dros 25 fydd yn cyrraedd £9 yr awr erbyn 2010. Mae gwahaniaeth sylweddol rhwng y 'cyflog byw' â'r un a sefydlwyd gan y Sefydliad Cyflog Byw y mae llawer o aelodau CHC wedi ymgyrchu drosto. Gall yn rhwydd fod â rhan i'w chwarae wrth helpu tenantiaid a gyflogir i symud allan o dlodi mewn-gwaith.

Effaith:

Gallai canlyniad y toriadau cyfun i fudd-daliadau weld y Sefydliad yn ailbricio cyflog byw 'go iawn' a gofyn i'w aelodau dalu hynny. Gallai costau byw gynyddu fel canlyniad i'r costau cyflog uwch sy'n wynebu cyflogwyr, gan effeithio ymhellach ar y rhai y cafodd eu budd-daliadau eu rhewi.

Ni fydd y gostyngiad mewn treth gorfforaeth a gyhoeddwyd i wrthbwysu'r polisi hwn yn gwneud gwahaniaeth i'n haelodau, gan nad yw sefydliadau dim-er-elw yn talu treth gorfforaeth. Felly, bydd unrhyw gynnydd mewn taliadau staff yn effeithio ar gyllidebau.

Mesurau datganoledig a all effeithio'n uniongyrchol ar gymdeithasau tai Cymru

1. Gostwng lefelau rhent cymdeithasau tai

Bydd y Llywodraeth yn gostwng rhenti cymdeithasol yn Lloegr gan 1% y flwyddyn am 4 blynedd rhwng 2016/17 i 2019/10. Yn ymarferol bydd y Llywodraeth yn dileu'r model rhent presennol yn Lloegr o CPI +1% ac yn gosod gostyngiad o 1% flwyddyn ar flwyddyn ar lefelau rhent hyd Ebrill 2020 pan ailgyflwynir CPI +1%.

Effaith:

Mae adroddiad Swyddfa Annibynnol Cyfrifoldeb Cyllideb (OBR) ar effaith cynigion y Gyllideb yn awgrymu bod y mesur hwn yn ei gwneud yn fwy tebygol y caiff y sector ei ail-ddosbarthu. Pe byddai cymdeithasau tai yn cael



eu dosbarthu fel rhan o'r sector cyhoeddus, ychwanegid eu dyled net o £60bn yn Lloegr (£2.2bn yng Nghymru) at ddyled net y sector cyhoeddus.

Yn Lloegr, mae'r rheol newydd 'Talu i Aros' yn gwrthbwysu'r polisi hwn. Bydd yn rhaid i denantiaid 'incwm uchel' tai cymdeithasol yn Lloegr dalu'n agos at rent y farchnad, a aiff yn uniongyrchol i'r landlord. Er bod hwn yn fater sydd wedi'i ddatganoli, mae angen i ni ystyried yr effaith yma yng Nghymru. **Mae CHC felly wedi galw cyfarfod o Brif Weithredwyr i drafod goblygiadau'r polisi hwn i'r sector a bydd yn rhoi gwybodaeth bellach maes o law.**

Yn dilyn cyhoeddi'r Bil Diwygio Lles a Gweithiau (cyhoeddwyd 9 Gorffennaf 2015), gofynnodd CHC am gyngor cyfreithiol annibynnol sy'n awgrymu'r dilynol:

Mae Adrannau 19-22 y Bil Diwygio Lles a Gweithiau'n gostwng swm y rhent a dalir gan denantiaid tai cymdeithasol yn Lloegr gan 1%. Dywed Adran 24 Bil Diwygio Lles a Gweithiau fod adrannau 19-22 (gostwng rhenti tai cymdeithasol) yn ymestyn i Loegr a Chymru. Mae hyn fel canlyniad i'r ffaith fod Lloegr a Chymru yn rhan o gyd-awdurdodaeth. O'r herwydd, mae cyfraith nad yw ond yn weithredol yn Lloegr yn ffurfio rhan o'r corff cyfreithiau yng Nghymru, a vice versa. Mae hyn yn wir yn yr achos hwn, ac felly ni fyddai gofyniad i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yng Nghymru ostwng eu rhenti gan 1% fel canlyniad i'r Bil.

Nid oes unrhyw ddarpariaeth yn y Bil hwn ar gyfer gostwng Budd-dal Tai yn unol gyda'r gostyngiad o 1% mewn rhent tai cymdeithasol. Ni chafodd Budd-dal Tai ei ddatganoli i'r Cynulliad Cenedlaethol, ac felly pe byddai Llywodraeth San Steffan yn penderfynu yn y dyfodol i ostwng Budd-dal Tai, yna byddai'n cael effaith uniongyrchol ar landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yng Nghymru. Fel y saif ar hyn o bryd, fodd bynnag, ni fydd unrhyw ostyngiad yn swm y budd-dal tai y mae landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yng Nghymru yn ei dderbyn fel canlyniad i adrannau 19 i 22.

2. Talu i Aros

Bydd y Llywodraeth yn ei gwneud yn ofynnol i denantiaid cymdeithasol 'incwm uchel' yn Lloegr i dalu rhent marchnad neu agos at y farchnad, gyda'r incwm rhent ychwanegol a godir gan awdurdodau lleol i gael ei ddychwelyd i'r Trysorlys. Bydd y Llywodraeth yn ymgynghori ar sut i weithredu hyn.

Effaith:

Fel busnesau annibynnol, mae cymdeithasau tai angen yr hyblygrwydd i osod eu rhenti eu hunain, yn arbennig pan ystyriant farchnadoedd tai lleol, gallu pobl i dalu ac yn y blaen. Gallai swydd cyflog uwch olygu rhenti uwch neu y droi pobl o'u cartrefi. Gallai hyn gael effaith negyddol ar ddymuniad pobl sy'n byw mewn tai cymdeithasol i symud i swyddi ar gyflog gwell. Ychydig o landlordiaid sydd yn cadw data ar enillion eu tenantiaid. Er bod hyn yn fater sydd wedi'i ddatganoli, dylem ddal ystyried pa effaith a gaiff y mesur hwn yma yng Nghymru.



3. Tenantiaethau gydol oes

Bydd y Llywodraeth yn adolygu'r defnyddio tenantiaethau gydol oes mewn tai cymdeithasol yn Lloegr i gyfyngu eu defnydd a sicrhau y caiff aelwydydd gynnig tenantiaethau sy'n cyfateb â'u hanghenion ac yn gwneud y defnydd gorau o stoc tai cymdeithasol.

4. Lefi prentisiaethau

Bydd y Llywodraeth yn cyflwyno lefi ar gyflogwyr mawr y Deyrnas Unedig i gynyddu nifer y prentisiaethau newydd. Yn Lloegr, gall cyflogwyr gael mynediad i'r cyllid hwn ar gyfer hyfforddiant prentisiaeth. Bydd ymgysylltu ffurfiol ar weithredu'r lefi a rhoddir manylion pellach yn yr adolygiad ar wariant.

Effaith:

Nid yw'r Trysorlys wedi rhoi manylion ar faint y lefi na'r busnesau fydd yn gorfod ei dalu.

5. Cadarnhau ymestyn yr Hawl i Brynu i gymdeithasau tai yn Lloegr

Effaith:

Gan fod tai yn faes sydd wedi ei ddatganoli, Llywodraeth Cymru sy'n gwneud unrhyw benderfyniadau am yr Hawl i Brynu yng Nghymru. Fodd bynnag, gallai ymestyn yr Hawl i Brynu i gymdeithasau tai yn Lloegr gael effeithiau yng Nghymru. Er enghraifft, gallai fod effaith ar gymdeithasau tai yng Nghymru pe byddai cyllidwyr yn newid eu barn am gadernid ein sector yng ngoleuni datblygiadau yn Lloegr a gallai hyn arwain at gynydd yng nghost cyllid i aelodau CHC. Gallai hyn wedyn effeithio ar ddatblygu cartrefi newydd yng Nghymru ar adeg pan fod eisoes argyfwng yn y cyflenwad tai.

Mae CHC yn rhoi cefnogaeth lawn i ddymuniad pobl i fod yn berchen eu cartrefi eu hunain, ond nid yw'r polisi yma'n cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy.

6. Gofal plant: rhieni sy'n gweitho â hawl i 30 awr o ofal plant ar gyfer plant 3 a 4 oed ac amodau Credyd Cynhwysol i rieni o pan mae'r plentyn ieuengaf yn cyrraedd 3 oed

Mae'r mesur hwn yn ymestyn yr hawl am ofal plant am ddim i blant 3 a 4 oed o'r 15 awr yr wythnos bresennol i 30 awr yr wythnos ar gyfer teuluoedd lle mae'r ddau riant yn gweitho ac ar gyfer teuluoedd riant unigol mewn gwaith. Daw'r mesur i rym yn llawn o fis Medi 2017 ond caiff ei weithredu mewn rhai ardaloedd o fis Medi 2016.

Dim ond yn Lloegr y caiff gofal plant am ddim ei ymestyn gan fod cyfrifoldeb am yr hawl am ofal plant wedi'i ddatganoli. Mae gweithredu'r mesur yn golygu gwariant adrannol, ond byddai rhieni yn talu am lai o oriau o ofal plant. Mae hyn yn arwain mewn arbedion ar gymorthdaliadau gofal plant eraill gan y Llywodraeth, megis Gofal Plant Di-dreth ac elfen gofal plant credydau treth a Chredyd Cynhwysol.



Amodau ar Credyd Cynhwysol i rieni o pan mae'r plentyn ieuengaf yn cyrraedd 3 oed

Mae'r mesur hwn yn ymestyn amodau llawn mewn Credyd Cynhwysol i rieni unigol a gofalwyr cyfrifol sydd â'u plentyn ieuengaf yn 3 neu 4 oed. Mae hyn yn golygu y bydd angen i rieni unigol a gofalwyr cyfrifol fod ar gael am waith ac yn edrych am waith, a chydymffurfio gyda systemau amodau'r Ganolfan Byd Gwaith unwaith y bydd eu plentyn ieuengaf yn 3 oed.

Effaith:

Mae angen i ni ystyried pa effaith a gaiff y mesur yma yng Nghymru. Er enghraifft, os na chaiff trefniadau tebyg ar ofal plant eu hatgynhyrchu yng Nghymru, lle mae gofal plant am ddim eisoes yn gyfyngedig o gymharu â Lloegr, gall rhieni orfod talu am ofal plant pan fyddant yn edrych am waith.

7. Cymorth ar log morgeisi: newid o daliad llesiant i fenthyciad

Mae'r mesur yma'n cynnal taliadau Cymorth Llog Morgeisi ar £200,000 o Ebrill 2016. Mae'r mesur hefyd yn newid hyn o fod yn fudd-dal i fenthyciad y mae'n rhaid talu llogau arni, wedi'i gwarantu ar yr eiddo y mae morgais arno, o Ebrill 2016.

8. Twyll, camgymeriad a dyled: newidiadau credyd treth

Bydd y mesur yma'n ymestyn defnydd y sector preifat i wella casglu dyled treth i ddyled credyd treth. Bydd hyn yn targedu dyledion credyd treth o fwy na £3,000 sydd eisoes wedi mynd drwy'r broses casglu dyled credydau treth estynedig. Mae'r mesur hwn yn weithredol o Ebrill 2016. Bydd y mesur hefyd yn adennill gordaliadau Credyd Treth Gwaith o daliadau Credyd Treth Plant, ac yn adennill gordaliadau Credyd Treth Plant o daliadau Credyd Treth Gwaith. Daw'r mesur i rym ym mis Tachwedd 2015.

Effaith:

Gallai'r polisi yma weld tenantiaid yn dod dan fwy o bwysau ariannol i ad-dalu gordaliadau presennol.

9. Datganoli mwy o rymoedd i Gymru

Mae gan y Llywodraeth ymrwymiad i symud ymlaen â chytundeb Dydd Gŵyl Dewi i Gymru. Mae hyn yn cynnwys gweithredu llawr cyllid yn yr Adolygiad Gwariant gan ddisgwyl y bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal refferendwm ar ddatganoli treth incwm.

Mae CHC wedi galw'n flaenorol am gyllid teg i Gymru gan y caiff Cymru ei thanariannu ar hyn o bryd ac felly eisoes yn cael ei tharo'n waeth na mannau eraill.



Cyllid Canlyniadol

Fel canlyniad i raglen cyni cyllidol llywodraeth y Deyrnas Unedig, mae cyllideb Llywodraeth Cymru £1.3bn yn is mewn gwir dermau yn 2015-16 nag oedd yn 2010-11. Bydd cyllideb Llywodraeth Cymru yn derbyn £4m ychwanegol fel canlyniad i gyllid canlyniadol; fodd bynnag mae hyn £46m yn is na'r Gyllideb Derfynol a gytunwyd gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig fis Rhagfyr diwethaf.

Y camau nesaf i CHC

Ynghyd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ysgrifennodd CHC at y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnal trafodaethau gydag asiantaethau a chyrff sy'n ymwneud â chefnogi cymunedau ledled Cymru fel y gallwn asesu'r effaith ac ystyried dulliau gweithredu cydlynol lle bo angen.

Mae CHC hefyd wedi siarad gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau trafodaeth gyda swyddogion a'r Gweinidog cyn gynted ag sy'n bosibl ar nifer o gyhoeddiadau ar faterion polisi tai a wnaed gan y Canghellor fydd yn effeithio ar gymdeithasau tai yn Lloegr ac a allai o bosibl gael effaith ar dybiaethau cynlluniau busnes a strategaeth cymdeithasau tai Cymru ar gyfer y dyfodol. Fel y nodwyd, mae CHC wedi galw cyfarfod o'r Rhwydwaith Prif Weithredwyr yr wythnos nesaf. Bydd hyn yn rhoi cyfle i ni drafod y materion yn fanylach, ystyried pa waith y gall fod angen i ni ei wneud fel sector ac ystyried ymatebion priodol cyn i'r Senedd ailgynnull ym mis Medi.

I drafod camau nesaf CHC, cysylltwch os gwelwch yn dda â Sioned Hughes, Cyfarwyddydd Polisi a Materion Allanol - Sioned-hughes@chcymru.org.uk.

Gwybodaeth bellach

I gael mwy o wybodaeth ac eglurhad ar gynnwys y papur gwybodaeth yma, cysylltwch os gwelwch yn dda â Paul Langley, Pennaeth Mae Budd-daliadau yn Newid, Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru - paul-langley@chcymru.org.uk.

Bydd manylion pellach ar effaith ac ystyr pob newid llesiant ar gael ar wefan a thudalen Facebook Mae Budd-daliadau yn Newid. Bydd dalenni ffeithiau a gwybodaeth ar gael i aelodau CHC a sefydliadau cefnogol. www.yourbenefitsarechanging.co.uk

Bydd yr wybodaeth ddiweddaraf hefyd ar gael drwy ein sesiynau Mae Budd-daliadau yn Newid sy'n rhoi'r newyddion diweddaraf yn fewnol ar Credyd Cynhwysol ac sydd am ddim i aelodau CHC. Mae manylion pellach ar ein gwefan: <http://chcymru.org.uk/en/policy/welfare-reform/communicating-the-changes-your-benefits-are-changing-campaign/ybac-internal-campaign-april-2015/>